


# Y STORI HYD YMA

## TRAWSNEWID CREADIGRWYDD YNG NGHYMRU

EBRILL 2022 – MAWRTH 2023

CANOLFAN MILENIWM CYMRU

Rhif elusen: 1060458

# BLWYDDYN O ADFER A THRAWSNEWID

**Eleni mae Canolfan Mileniwm Cymru wedi codi'n hyderus o'r heriau a wynebwyd yn sgil y pandemig Covid, diolch i gefnogaeth barhaus ein partneriaid, aelodau, rhoddwyr, ymddiriedolaethau, sefydliadau a'r cyhoedd.**



**Graeme Farrow,**
**Cyfarwyddwr Artistig a Chreadigol**

**Mae ein lleoliad Cabaret newydd bellach yn rhannu'r goreuon o blith drag, cabaret, comedi, bwrlésg a mwy,** ac mae ein lleoliad digidol newydd, Bocs, (yr unig un o'i fath yng nghanolfannau celfyddydol y DU) yn cynnig profiadau ymdrochol arloesol am ddim. Rydyn ni hefyd yn parhau i ddatblygu mannau hygyrch ac ysbrydoledig i gymunedau allu ymgynnull a chreu yng nghanol ein hadeilad.

**Mae dathliadau o dan arweiniad y gymuned, o Ddydd Gŵyl Dewi i Diwali,** wedi llenwi'n hadeilad â bywyd unwaith eto yn dilyn y pandemig, ac rydyn ni wedi ymestyn ein tocynnau Croeso 'talwch beth y gallwch' i gymunedau ledled Cymru.

**Yn ogystal â llwyfannu sioeau rhyngwladol blaenllaw, rydyn ni'n parhau i gynhyrchu ein gwaith ein hunain,** gan arddangos creadigrwydd Cymru i dros 40,500 o bobl ledled y byd. Mae hyn yn cynnwys rhediad o sioeau yn y National Theatre yn Llundain ar gyfer The Boy with Two Hearts. Fel rhan o'r gwaith yma, rydyn ni wedi parhau i gefnogi artistiaid gyda gofod ymarfer, arweiniad a chysylltiadau yn y diwydiant ac mae ein cymdeithion creadigol wedi cyfoethogi ein gwaith am yr ail flwyddyn.

**Fel erioed, mae cenedlaethau'r dyfodol yng Nghymru yn parhau i fod yn flaenoriaeth** ac rydyn ni'n gweithio i sefydlu Gofodau Creu parhaol o dan arweiniad pobl ifanc i feithrin eu creadigrwydd a datblygu ein rhaglen unigryw o hyfforddiant datblygu sgiliau am ddim, ochr yn ochr â'n partneriaid yn y diwydiant.

**Fel elusen sydd ond yn derbyn 15% o'n hincwm o arian cyhoeddus,** dim ond gyda chefnogaeth ein cynulleidfaoedd, arianwyr, partneriaid, ymwelwyr a gwirfoddolwyr mae'r gwaith yma'n bosib. Mae eich haelioni yn ein galluogi i wthio ffiniau, ymestyn ein cyrhaeddiad a mwyhau lleisiau amrywiol. Diolch am fod yn rhan o'n stori.

**Gwyliwch ein stori yma:**



"DIM OND CRAFU'R WYNEB MAE'R NEWIDIADAU GWELADWY YMA AC MAEN NHW WEDI DIGWYDD O GANLYNIAD I WAITH YMGYNGHORI PARHAUS Â PHOBL YN Y GYMUNED I SICRHAU EIN BOD YN GARTREF CREADIGOL I BAWB."



# CODI DYHEADAU POBL IFANC

**Rydyn ni'n cynhyrchu cyfleoedd a phrofiadau dysgu creadigol llawen sy'n gwella bywydau, gyda phobl ifanc ein cenedl ac ar eu cyfer. Rydyn ni'n eu cefnogi i fagu hyder creadigol ac ehangu eu sgiliau, eu rhwydweithiau cymdeithasol a'u llwybrau gyrfa. Eleni mae dros 6,500 o bobl ifanc wedi cael eu hysbrydoli yma yng Nghanolfan Mileniwm Cymru ac yn ein lleoliadau partner ledled Cymru.**






## "FE WNES I ENNILL LLAWER O SGILIAU TROSGLWYDDADWY A FYDD YN FY HELPU GYDA CHYFWELIADAU A SWYDDI YN Y DYFODOL."

Cafodd 170+ o raddedigion **Llais Creadigol** 12 awr o hyfforddiant dwys am ddim mewn sgiliau radio, cerddoriaeth a'r celfyddydau gweledol a digidol.



**"...dw i wedi gweld nid yn unig bod gan yr uwch-reolwyr ddiddordeb yn ein safbwyntiau ond eu bod nhw hefyd yn awyddus i sicrhau bod ein lleisiau ni'n cael eu clywed."**

Un o aelodau'r **Criw Ieuenctid**, yn sôn am helpu i lywio ein prosesau gwneud penderfyniadau, o'n rhaglenni o dan arweiniad pobl ifanc i ddyluniad a defnydd o'n gofodau.

**"Pan ddechreuais i, plentyn swil o'n i oedd ddim yn siarad â neb; nawr does gen i ddim ofn gwneud sioe o flaen pawb."**

Un o'r 80+ o bobl ifanc a gafodd hyfforddiant **Radio Platfform** achredig am ddim. Gwnaeth ein gorsaf radio dan arweiniad pobl ifanc ddarlledu 1,200+ o sioeau a chroesawu 11 o ddoniau ifanc i rolau ym maes radio â thâl.

## "CYFLE UNWAITH MEWN OES A PHROFIAD FYDDA I FYTH YN EI ANGHOFIO."

Un o gyfranogwyr **Dros Nos** a fwynhaodd 24 awr o fynediad tu ôl i'r llen a mynegiant creadigol, cyfleoedd sy'n cael eu rhedeg gyda grwpiau ieuenctid lleol yn ein digwyddiad cysgu dros nos blynyddol.

**"Digwyddiad anhygoel. Dw i'n caru pa mor gynhwysol yw e. Rydyn ni angen mwy o ddigwyddiadau fel hyn."**

Darparodd ein digwyddiad mewn **partneriaeth â Phlant y Cymoedd**, **Life Hack**, 1,100+ o oriau o rwydweithio yn y diwydiant i bobl ifanc De Cymru. Dywedodd 91% o'r rhai a gymerodd ran eu bod wedi cael eglurder ynghylch y gyrfaoedd creadigol sydd ar gael iddyn nhw.

**"Roedd y sesiynau'n wych. Roedden nhw'n addysgiadol iawn ac fe wnaethon nhw helpu i ysbrydoli a thanio diddordeb y disgyblion yn niwydiant y celfyddydau creadigol."**

Athro o un o chwe **ysgol uwchradd** ein **Partneriaethau Gwerthfawr**, a roddodd gyfle i 90+ o ddisgyblion dros 15 diwrnod gael blas ar y diwydiant ar y safle, gan weithio gyda Gyrfa Cymru.

Gyrfa Cymru
Careers Wales



# CANOLFAN CELFYDDYDAU PERFFORMIO SY'N ARWAIN Y BYD

**Mae Canolfan Mileniwm Cymru yn gartref creadigol i bawb. Rydyn ni'n tanio'r dychymyg drwy brofiadau digidol a byw o safon fyd-eang, gan rannu cyfleoedd creadigol a datblygu sgiliau, a bod yn rhan hanfodol o drawsnewid creadigrwydd yng Nghymru.**



## ARLOESWYR DIGIDOL

**“Ar ôl tynnu'r benwisg, fe wnes i gwympo mewn dagrau ecstatig. Roedd e'n un o brofiadau mwyaf dwys fy mywyd... EWCH. EWCH. EWCH.”**

Adborth gan aelod o'r gynulleidfa ar gyfer y sioe arobryn In Pursuit of Repetitive Beats. Dywedodd 88% o'r archebwyr eu bod "yn teimlo'n emosiynol" ar ôl y profiad ymdrochol.

Mae ein lleoliad newydd Bocs yn unigryw mewn canolfannau celfyddydol yn y DU ac yn arddangos profiadau digidol ymdrochol am ddim sydd wedi'u creu gennym ni ac arweinwyr eraill y diwydiant ledled y byd.

Ar flaen ein hadeilad eiconig mae hefyd gennym sgrin ddigidol LG allanol fwyaf Ewrop yn darlledu graffeg symudiad byw.

## CARTREF THEATR SY'N ARWAIN Y BYD

**“Roedd y derbyniad yn anhygoel, mae'r theatr yn hyfryd, dw i'n teimlo'n lwcus iawn.”**

Y perfformiwr Lauren Drew ar noson agoriadol Les Misérables, un o 40 o gynyrchiadau cerddorol, opera, dawns, theatr a chomedi o safon fyd-eang i swyno 426,800+ o aelodau'r gynulleidfa yn ein Theatr Donald Gordon eiconig.








## DATBLYGU DONIAU SY'N ARWAIN Y DIWYDIANT

**“Mae'r hyn rydych chi wedi'i wneud yma yn wirioneddol anhygoel. Mae wir yn arwain y byd.”**

Adborth gan y gynulleidfa ar gyfer How Shall We Begin Again?, sef cynhyrchiad prif lwyfan arloesol gan Jo Fong, un o'n wyth o gymdeithion creadigol preswyl, sy'n cael eu talu i ddatblygu eu harferion unigryw a chyfoethogi ein rhaglenni.

**“Dyma'r peth gorau dw i wedi'i wneud erioed. Rydych chi'n dysgu sut i weithio ar gynyrchiadau enfawr... dw i wedi dysgu sut i ymddiried llawer mwy yn fy hunan.”**

Un o'n saith prentis technegol, sydd gyda'i gilydd wedi cael 11,000+ o oriau cyflogedig o brofiad theatr dechnegol o safon fyd-eang gyda ni a lleoliadau partner enwog ledled Cymru.

## ARLOESWYR MEWN CYNALIADWYEDD

**“Bydd y paneli solar ar ein to yn pweru gweithgarwch y prif lwyfan am y chwarter canrif nesaf ac rydyn ni'n aelod gwreiddiol o rwydwaith gwres arloesol Caerdydd Un Blaned a fydd yn lleihau ein hallyriadau blynyddol 80%. Mae'r agwedd ragweithiol yma yn sicrhau dyfodol mwy glan a gwyrdd ar gyfer cenedlaethau i ddod.”**

David Bonney, Rheolwr Peirianneg a Chadwraeth Adeiladau.

## 7.5 ERW O GREADIGRWYDD

Mae ein wyth o breswylwyr a phartneriaid diwylliannol mawreddog yn helpu i wneud Canolfan Mileniwm Cymru yn gampws creadigol i'r genedl.

WNO Welsh National Opera Opera Cenedlaethol Cymru · Llenyddiaeth Cymru Literature Wales · TŶ CERDD hyrwyddo cerddoriaeth Cymru promoting the music of Wales · Hijinx · national dance company wales cwmni dawns cenedlaethol cymru · touch TRUST · Urdd · BBC National Orchestra of Wales Cerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC

# HYGYRCH I BAWB

**Gan weithio gyda 50+ o bartneriaid cymunedol, cenedlaethol a rhyngwladol, a'n wyth o breswylwyr diwylliannol, rydyn ni'n hyrwyddo lleisiau cymunedau niferus Cymru i greu dathliadau, profiadau a gofodau llawen i bawb yn ein hadeilad cyhoeddus.**



**"...MAE CANOLFAN MILENIWM CYMRU WEDI BOD OCHR YN OCHR Â NI ERS Y DECHRAU. WRTH I'R CARNIFAL DDATBLYGU A THYFU, MAE CYFRANIAD CANOLFAN MILENIWM CYMRU WEDI TYFU HEFYD."**

Cyfarwyddwr creadigol Carnifal Trebiwt, Keith Murrell, ar eu dathliad mwyaf eto. Mae'r Carnifal yn un o 160+ o berfformiadau, arddangosfeydd, profiadau a dathliadau diwylliannol dan arweiniad y gymuned sydd, gyda'i gilydd, wedi croesawu 11,000+ o bobl i'n hadeilad.

**"Mae'n cŵl iawn gweld y gwaith wnaethon ni yn cael ei roi ar waith a gweld bod ein syniadau a'n hawgrymiadau yn cael eu cymryd o ddifri."**

Aelod o'r Grŵp Dylunio yn trafod ein Gofodau Creu sy'n cael eu harwain gan bobl ifanc ac sy'n gartref i hyfforddiant yn y diwydiant, ymgynghori â ieuenctid a phreswylfeydd artistiaid ar gyfer 500+ o bobl ifanc.

**"Mae artistiaid newydd yn gwybod bod Cabaret yn lle y gallan nhw ddod iddo, rhoi cynnig ar bethau, a rhagori... tra eu bod yn cael eu cefnogi gan dorf o bobl sydd eisiau gweld y gwaith rydyn ni'n ei greu."**

Ein cynhyrchydd Peter Darney ar ein lleoliad Cabaret pwrpasol newydd, y cyntaf o'i fath yng Nghymru.

**"...yn draddodiadol, mae theatr gerdd mewn lleoliad mawr yn cael ei hystyried gan ein cymuned fel rhywbeth dosbarth uwch a brawychus – ond roedden ni'n teimlo i ni gael croeso mawr!"**


Un o 3,200+ o aelodau'r gynulleidfa sydd wedi profi perfformiadau o safon fyd-eang gyda thocynnau Croeso 'talwch beth y gallwch'.

**"Dw i wrth fy modd yma ac yn ddiolchgar am y profiad, y cyfleoedd i roi cynnig ar bethau newydd a'r pleser dw i wedi'i gael, ac yn parhau i'w gael fel rhan o deulu Canolfan Mileniwm Cymru."**

Un o 200+ o wirfoddolwyr sy'n rhannu llawenydd theatr fyw â'n cynulleidfaoedd, yn ogystal â 22,700+ o oriau torfol o'u hamser, eu sgiliau a'u hangerdd dros y celfyddydau yng Nghymru.

## I BAWB

Rydyn ni'n gyflogwr Cyflog Byw Gwirioneddol a Hyderus o ran Anabledd, ac yn ysgogi cynhwysiant gyda'n rhwydwaith cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant trawsadrannol, ein partneriaid a'n cymunedau. Chwiliwch am '**Cynllun Gweithredu Amrywiaeth**' ar ein gwefan i ddysgu mwy.





# GWAITH ARLOESOL I ARDDANGOS CYMRU

**Gan gefnogi artistiaid o Gymru i ddatblygu ac arddangos gwaith arloesol, rydyn ni wedi dod ag wyth o gynyrchiadau, cyd-gynyrchiadau a phrofiadau Canolfan Mileniwm Cymru i 40,500+ o bobl, ac rydyn ni'n gweithio ar chwech arall, gan gynnwys ein sioe gerdd epig Gymraeg ar y prif lwyfan, Branwen: Dadeni, a gyd-gynhyrchir gyda Frân Wen.**





**“Fe ddes i allan o'r stiwdio gyda brwdfrydedd o'r newydd i ddysgu'r iaith.”**
Canmoliaeth gan South Wales Life ar gyfer Anthem, ein cynhyrchiad llawen a oedd yn gwthio ffiniau theatr Gymraeg ac a groesawodd gynulleidfa yr oedd 89% ohoni'n Gymry Cymraeg.

**“Amrywiol.” “Cynhwysol.” “Cymreig.”**
Y geiriau a gafodd eu defnyddio amlaf gan 16,000+ o aelodau'r gynulleidfa i ddisgrifio ein gŵyl gelfyddydol ryngwladol, Llais. Roedd 95% yn cytuno eu bod yn profi rhywbeth unigryw a heb ei debyg o gymharu â gwyliau eraill.



**“Dw i wedi bod yn ffodus iawn i weld popeth sy'n cael ei lwyfannu ar hyn o bryd yn y National Theatre yr hanner tymor yma... Fy argymhelliad ar gyfer 'un sioe yn unig i'w gweld' yw The Boy with Two Hearts – teimladwy, llawn tyndra, pwysig.”**
Un o 16,000+ o aelodau'r gynulleidfa yn Llundain a Chaerdydd a gafodd eu syfrdanu gan ein stori am ffoaduriaid a ddaeth i Gymru. Cafodd ein profiad realiti rhithwir oedd yn cyd-fynd â'r sioe, Ripples of Kindness, ei arddangos yn rhyngwladol.

**“I gael y fath haelioni a chefnogaeth a ges i gan Ganolfan Mileniwm Cymru o ran eu tryloywder, dw i erioed wedi cael hynny o'r blaen... a chaniatáu i fi ddod i'r cyfarfodydd, a chaniatáu i fi gyfrannu at y sgyrsiau hynny. Roedd yn digwydd o'r dechrau i'r diwedd.”**
Connor Allen, bardd plant Saesneg Cymru yn 2021, a'r awdur a'r perfformiwr y tu ôl i'r stwnsh theatr-grime arloesol The Making of a Monster.

**“...MAE WEDI BOD YN WYCH PROFI YSTOD MOR AMRYWIOL O GYNULLEIDFAOEDD, OND Y PETH SY'N WIR LLE BYNNAG AWN NI, YW'R SYNIAD YMA O GYNGHREIRIAETH GWIAR, CARIAD CWIAR, A LLAWENYDD CWIAR, A HUNAN-GARIAD CWIAR.”**
Luke Hereford, awdur a pherfformiwr y tu ôl i'r cyd-gynhyrchiad cabaret clodwiw Grandmother's Closet, a swynodd gynulleidfaoedd yng Ngŵyl Ymylol Caeredin, Caerdydd, Manceinion, Bryste a Norwy.

# CHI YW TANWYDD EIN DYFODOL

**Diolch. Dim ond gyda'n teulu o wirfoddolwyr, aelodau, partneriaid a chefnogwyr sy'n rhannu ein hangerdd dros hyrwyddo pobl ifanc, cymunedau ac artistiaid newydd o bob rhan o Gymru mae ein taith uchelgeisiol yn bosib. Fydden ni ddim yn gallu llwyddo hebddoch chi.**



## HOFFECH CHI FOD YN RHAN O'N STORI HEFYD?

**Cyfrannwch** – gall rhodd fach wneud gwahaniaeth mawr.

**Gwirfoddolwch** – rhannwch eich amser, sgiliau ac angerdd am y celfyddydau gyda'n teulu o wirfoddolwyr.

**Ymunwch** – ymaelodwch a mwynhewch ystod o fuddion unigryw i gydnabod eich cefnogaeth hael.

**Enwch sedd** – dewch yn rhan o'n hanes drwy enwi sedd yn eich enw chi neu yn enw anwylyd yn ein Theatr Donald Gordon ysblennydd.


**Gadewch rodd** – dewch yn nes at yr hyn rydych chi'n ei garu yn ystod eich oes tra eich bod chi'n gwneud cyfraniad parhaus ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol fel rhan o'n Cylch Cymynroddion.

**Rhannwch eich angerdd** – helpwch i ddatblygu ac ariannu prosiectau trawsnewidiol a mwynhewch brofiadau unigryw fel aelod o Gylch y Cadeirydd.

**Tyfwch eich brand** – diddanwch eich cleientiaid, gwobrwywch staff a mwynhewch fynediad at gelfyddyd a diwylliant o safon fyd-eang fel un o'n cefnogwyr corfforaethol.

**YMUNWCH. CYFRANNWCH.**


# DADANSODDIAD CYLLID




## INCWM 22/23

- **Cyllid craidd Cyngor y Celfyddydau** | £4 MILIWN (15%)
- **Incwm o'n theatrau, caffis, bariau a siop** | £21 MILIWN (79%)
- **Cyfraniadau a rhoddion dyngarol** | £1.6 MILIWN (6%)


**DIM OND 15% O'N HINCWM SY'N DOD O GYLLID CYHOEDDUS – MAE'R GWEDDILL YN DOD O'N CYMUNED.**




## GWARIANT 22/23

- **Costau sy'n gysylltiedig â'n gweithgarwch masnachol** | £18 MILIWN (66%)
- **Gweithgarwch elusennol** | £1.8 MILIWN (7%)
- **Costau codi arian uniongyrchol** | £5,000 (0%)
- **Costau rhedeg a chynnal ein hadeilad, sy'n gartref i wyth sefydliad preswyl ar draws 7.5 erw** | £7.6 MILIWN (27%)

**MAE'N COSTIO £7.6 MILIWN Y FLWYDDYN I GADW EIN HADEILAD CYHOEDDUS EICONIG AR AGOR I'N 1.8 MILIWN O YMWELWYR, 364 DIWRNOD Y FLWYDDYN.**




## GWARIANT ELUSENNOL 22/23

- **Cymunedol** | £435,000 (24%)
- **Cynyrchiadau Canolfan Mileniwm Cymru** | £400,000 (22%)
- **Dysgu Creadigol** | £960,000 (54%)

Cyfrifon blynyddol swyddogol i'w ffeilio gyda Thŷ'r Cwmnïau ym mis Rhagfyr 2023.
Ffigurau wedi'u talgrynnu.

# BLAS O'R HYN SYDD I DDOD


**Wrth i ni edrych i'r dyfodol, mae gennym gynlluniau uchelgeisiol ar gyfer 2023/24 a thu hwnt.**



## TRAWSNEWID CREADIGRWYDD YNG NGHYMRU

**Mae ein cynlluniau cyffrous yn cynnwys:**

- Rhaglen o sgyrsiau, gweithdai a phrofiadau arloesol i ymdrochi 8,000+ o bobl ym myd realiti rhithwir, ffilmiau a thafluniadau 360°, a mwy.
- Cyfleoedd i 10,000+ o aelodau'r gymuned gymryd rhan mewn profiadau, gosodweithiau a dathliadau sydd wedi'u curadu ar y cyd, yn cynnwys Eid, Carnifal a Diwali.
- Ein sioe gerdd epig Gymraeg gyntaf ar y prif lwyfan, Branwen: Dadeni, a gyd-gynhyrchir gyda Frân Wen.
- Dychweliad ein gŵyl gelfyddydol ryngwladol, Llais, gyda'n harlwy fwyaf epig hyd yma.
- Ehangu ein rhaglen o gyrsiau i bobl ifanc gan gynnig mwy o gyfleoedd a phrofiadau creadigol.







## EHANGU EIN GOFODAU

Yn 2022/23 agorwyd ein gofod Cabaret newydd, ein lleoliad digidol Bocs a'n bar-caffi newydd Ffwrnais. Y flwyddyn nesaf byddwn yn cwblhau'r cyfnod uchelgeisiol yma o drawsnewid sy'n creu croeso cynhesach i Ganolfan Mileniwm Cymru, gyda'n bar i aelodau wedi'i adnewyddu, Copr.

Nesaf, rydyn ni'n creu gofodau Platfform parhaol o dan arweiniad ieuenctid, gan alluogi 10,000+ o bobl ifanc greadigol i gyd-ddatblygu a chael mynediad at ein rhaglenni. Bydd y gofodau'n cynnwys stiwdios recordio, labordai digidol, llefydd ymarfer, ardaloedd perfformio, gorsaf radio newydd a gweithdy gwneuthurwr.

Gan edrych ymhellach i'r dyfodol, rydyn ni'n paratoi ar gyfer Canolfan Cynhyrchu a Sgiliau Bae Caerdydd, a fydd yn cynnig mwy o ofod ymarfer a chynhyrchu a hyfforddiant yn y diwydiant i bobl greadigol Cymru, ac yn atgyfnerthu ein henw da fel ardal ddiwylliannol o safon fyd-eang.

**NI YW CANOLFAN MILENIWM CYMRU. TANWYDD I'R DYCHYMYG.**



# DIOLCH

## YMDDIRIEDOLAETHAU A SEFYDLIADAU
Cyngor Celfyddydau Cymru
Llywodraeth Cymru
Sefydliad Garfield Weston
Sefydliad Moondance
Ymddiriedolaeth Elusennol Simon Gibson
Ymddiriedolaeth Elusennol Mary Homfray
Cwmni Anrhydeddus Lifrai Cymru

## NODDWR SEFYDLU
Er cof am Syr Donald Gordon

## LLYWYDD OES
Yr Arglwydd Rowe-Beddoe DL

## CEFNOGAETH ARBENNIG
Er cof am David Morgan
Er cof am David Seligman OBE a Philippa Seligman
Babs Thomas ac er cof am Peter Thomas

## CYLCH Y CADEIRYDD
Carol Bell
Bob a Lindsay Clark
Y Fonesig Vivien Duffield DBE
Henry Engelhardt CBE a Diane Briere de l'Isle-Engelhardt OBE
Dyfrig a Heather John
Sylvia Richards ac er cof am Clive Richards CBE KSG DL
Yr Arglwydd a'r Arglwyddes Rowe-Beddoe
David Stevens CBE a Heather Stevens CBE
Peter a Janet Swinburn

## AELODAU PARTNER AWEN
Ms Ayesha Al-Sabah
Dean Barnard
Mary a David Beynon
Mrs Jacqueline Bird
Mrs Rosina Bridgeman
Andrea a John Bryant
Mr Robert Cross
Mrs Janet Davies
Mr Christian Du Cann
Mr P Ellis a Mrs V Wood
Russell Harris C.F. a Mrs Nicola Harris
Mr a Mrs Granville a Sheila John
Mr a Mrs William R Jones
Mr Hopkin Joseph
Dr Phillip Lane
Yr Athro Michael Levi
Dr a Mrs Richard Logan
Dr M L Nussbaum
Alan a Maggie Peterson
Georgina a Len Phillips
Mrs Eirlys Pritchard Jones
Julienne Damaris Rowlands
Claire a Simon Wyatt

Diolch hefyd i'n holl wirfoddolwyr ac aelodau Partner, Ffrind+ a Ffrind ac i'n rhoddwyr eraill am eich cefnogaeth barhaus.

## CEFNOGWYR CORFFORAETHOL

Admiral
Cardiff Metropolitan University | Prifysgol Metropolitan Caerdydd
GLAMORGAN BREWING CO.
FUTURE INNS
QUANTUM ADVISORY WORKING IN PARTNERSHIP WITH YOU
PARMER CARDIFF WATERSIDE
HOWELL'S SCHOOL Llandaff GDST
thomascarroll GROUP PLC
SONY UK Technology Centre
ARUP

CANOLFAN MILENIWM CYMRU
WALES MILLENNIUM CENTRE

Cyngor Celfyddydau Cymru Arts Council of Wales
ARIENNIR GAN Y LOTERI LOTTERY FUNDED
Noddir gan Lywodraeth Cymru Sponsored by Welsh Government

© Canolfan Mileniwm Cymru, Plas Bute, Caerdydd, CF10 5AL yganolfan.org.uk
Rhif elusen gofrestredig 1060458